# Adolygiad marchnad o'r sector laeth organig yng Nghymru

O'i gymharu â'r sefyllfa a adroddwyd gan Ganolfan Organig Cymru yn 2003 (Hancock and Haward, 2003), gwelwyd cryn newid yn y farchnad ar gyfer llaeth organig. Tan 2001, yr oedd y farchnad laeth organig wedi ei thangyflenwi ond erbyn 2002, gyda nifer cynyddol o ffermydd llaeth wedi llwyr droi'n organig, roedd y farchnad yn cael ei gorgyflenwi.

Erbyn 2004, gallai cyflenwyr adrodd bod gwerthiannau yn dangos cynnydd o 25%. Yr oedd y cynnydd hwn i'w briodol i:

- **Galw uwch o ganlyniad i ymchwil** a ddangosai bod lefelau uwch o asidau omega ac asid linoleïg cyfunedig mewn llaeth organig o'i gymharu â llaeth confensiynol.
- **Twf yng nghyflenwad cynhyrchion llaeth newydd** gan gynnwys llaeth ffres a chyflasedig, cawsiau meddal ac iogyrtiau.

Erbyn 2005, roedd twf yn y farchnad wedi golygu nad oedd digon o gyflenwadau i ddiwallu ei gofynion, a bu'n rhaid mewnforio llaeth organig i gwrdd â'r prinder hwnnw.

Cododd y pris a delid i gynhyrchwyr am laeth o 23.4c y litr yn 2005 i ragor na 27c y litr yn 2006. Bu hyn yn fodd i ddarbwyllo llawer o ffermwyr confensiynol, a oedd wedi eu dadrithio gan brisiau confensiynol isel, i drawsnewid i ffermio llaeth organig. Yng Nghymru, cynyddasai nifer y ceisiadau OCIS gan ffermwyr llaeth o 4 yn 2004 i 71 yn 2006.

Dengys tystiolaeth ar gyfer 2007 fod y gyfradd drawsnewid yn arafu oherwydd pris porthiant uchel a gwell prisiau yn y sector gonfensiynol.

## Cynhyrchiant

- Yn 2005, amcangyfrifwyd bod 50 miliwn litr o laeth wedi ei gynhyrchu ar 180 o ffermydd organig a feddai ar oddeutu 9,500 o wartheg. Mae nifer y daliadau yn uwch na'r ffigwr ar gyfer 2007 isod, ond efallai bod rhai wedi gohirio trawsnewid organig oherwydd diffyg marchnad, neu wedi tynnu'n ôl yn gyfan gwbl o gynhyrchu llaeth.
- Dengys data gan gyrff ardystio bod 86 o gynhyrchwyr llaeth organig a 12 yn y broses o drawsnewid yng Nghymru ym mis Mawrth 2007. Mae hyn yn cynrychioli 4% o gyfanswm y cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru.
- Bydd y 12 cynhyrchwr a ddechreuodd drawsnewid yn 2006 yn cyflenwi oddeutu 12 miliwn litr ychwanegol o laeth organig bob blwyddyn ar ôl gorffen trosglwyddo.

## Y farchnad

1. Mae sector llaeth y DU yn dal y gyfran ail-fwyaf o'r farchnad organig gyda gwerthiannau o oddeutu £294 miliwn ar lefel adwerthol yn 2005. Mae'r rhan fwyaf o laeth organig yn mynd i'r farchnad hylifol.



*Published by Organic Centre Wales, Institute of Rural Sciences University of Wales Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AL. Tel. 01970 622248*

*Organic Centre Wales and its partners cannot accept any responsibility for the consequences of any actions taken on the basis of its factsheets or other publications.*

2. ABC1 yw prynwyr llaeth organig yn bennaf. Mae ganddynt arferion siopa amrywiol, maent yn defnyddio amrywiaeth o farchnadoedd adwerthol, ac y maent eisiau gwybodaeth i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau prynu ac i gyfiawnhau premiymau prisiau.
3. Ymddengys bod cydberthyniad positif rhwng y cynnydd yng ngwerthiant llaeth a chynhyrchion llaeth organig, a'r cyhoeddusrwydd a roddir i ganlyniadau ymchwil parthed manteision iechyd llaeth organig.
3. Tyfodd gwerthiannau llaeth hylifol organig yn y DU o 73.8 miliwn litr yn 2004 i 158 miliwn litr yn 2006. Bydd y twf a ragwelir yn y galw am laeth organig, os y'i gwireddir, yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer cynhyrchwyr sy'n fodlon trawsnewid.

- Mae'r llaeth hylifol organig a gynhyrchir yng Nghymru (h.y. nad sy'n cynnwys llaeth a ddefnyddir ar gyfer prosesu) yn ffurfio 7.5% o gyfanswm y llaeth organig a werthir yn y DU, ac yn cynrychioli 7.5% o gyfanswm y gwariant Prydeinig ar laeth organig.
- Fodd bynnag, y mae hyn yn cynrychioli dim ond 25% o gyfanswm y llaeth organig a gynhyrchir yng Nghymru sydd, yr amcangyfrifir, yn 50 miliwn litr.

**CYNHYRCHIAD A GWERTH LLAETH HYLIFOL ORGANIG, CYMRU A'R DU, 2007**

| | *Llaeth a gynhyrchir* | | *Gwariant* | |
|---|---|---|---|---|
| | *Miliwn litr* | *%* | *£ miliwn* | *%* |
| Cymru | 11.26 | 7.5 | 8 | 7.5 |
| Y DU | 150.38 | 100 | 107 | 100 |

*Ffynhonnell: TNS ac MDC*[1]

## Cynlluniau a Chamau angenrheidiol

1. Y **gyrwyr marchnad** allweddol yw

- Cyhoeddusrwydd ynglŷn â manteisio iechyd llaeth organig,
- Pryderon ynglŷn â lles anifeiliaid,
- Mwy o ddiddordeb o du adwerthwyr mawrion.

2. Y **prif gyfyngiadau** ar ddatblygiad y farchnad laeth organig yw

- Cyflenwadau annigonol,
- Diffyg hyrwyddo,
- Problemau yn ymwneud â dosbarthu,
- Cynhyrchu tymhoraidd,
- Costau porthi uwch,
- Prinder cyfleusterau prosesu.

1. Cytunir bod angen i'r holl ddiwydiant llaeth organig wneud cynlluniau i sicrhau na fydd nifer y ffermydd llaeth sy'n trawsnewid yn arwain at y problemau gorgyflenwi a brofwyd yn y gorffennol.

Cyfeiriad: Hancock, J. ac R. Haward (2003) *Improving Market Intelligence For Organic Dairy Production In Wales.* Canolfan Organig Cymru, Aberystwyth
http://www.organic.aber.ac.uk/library/Improving%20market%20intelligence%20for%20organic%20dairy%20production.htm

[1] http://www.mdcdatum.org.uk/Retailer%20Data%20&%20Prices/tnsliquidmilk.html